Pecyn Dogfen Cyhoeddus

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

| | | | |
|---|---|---|---|
| At: | Gadeirydd ac Aelodau'r  Pwyllgor Llywio'r Gymraeg | Dyddiad: | Dydd Mercher, 3 Hydref 2018 |
| | | Rhif Union: | 01824 712589 |
| | | ebost: | democratic@sirddinbych.gov.uk |

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR LLYWIO'R GYMRAEG, DYDD MAWRTH, 9 HYDREF 2018** am **10.00 am** yn **YSTAFELL GYNHADLEDD 1A, NEUADD Y SIR, RHUTHUN**

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

**AGENDA**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGANIADAU O FUDDIANT** (Tudalennau 3 - 4)

Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu yn y busnes a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn. (copi wedi'i amgáu)

**3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B (4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

**4 COFNODION** (Tudalennau 5 - 8)

Derbyn cofnodion cyfarfod y pwyllgor a gynhaliwyd ar 2 Gorffennaf 2018 (copi wedi'i amgáu)

**5 PENCAMPWYR IAITH** (Tudalennau 9 - 12)

Ystyried adroddiad gan Arweinydd Tîm -Rheoli Cyfathrebu ac Ymgyrchoedd I ddiweddaru'r Pwyllgor Llywio am waith y Pencampwyr Iaith o fewn yr awdurdod (copi wedi'i amgáu).

**6 GWASANAETHAU IEUENCTID A'R URDD** (Tudalennau 13 - 18)

Ystyried adroddiad gan Swyddog Arweiniol- Lles Cymunedol i esbonio'r gwaith sy'n mynd ymlaen i weithio gyda phobl ifanc er mwyn hyrwyddo'r Gymraeg yn y sir (copi wedi'i amgáu).

**7 YSGOL GLAN CLWYD LANGUAGE CENTRE**

I dderbyn cyflwyniad gan Arweinydd Tîm -Rheoli Cyfathrebu ac Ymgyrchoedd ar swyddogaeth y Ganolfan Iaith newydd yn Ysgol Glan Clwyd

**8 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL** (Tudalennau 19 - 20)

Ystyried rhaglen gwaith i'r dyfodol y Pwyllgor (copi wedi'i amgáu).

**MEMBERSHIP**

**Y Cynghorwyr**

Ellie Chard
Ann Davies
Tony Flynn
Huw Hilditch-Roberts
Paul Penlington
Arwel Roberts
Anton Sampson
Tony Thomas
Graham Timms
Joe Welch
Emrys Wynne

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

**DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000**

**Cod Ymddygiad Aelodau**

## DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

Rwyf i,
(enw)

*Aelod /Aelod cyfetholedig o
*(*dileuer un)*

**Cyngor Sir Ddinbych**

**YN CADARNHAU** fy mod wedi datgan buddiant ***personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-
*(*dileuer un)*

Dyddiad Datgelu:

Pwyllgor (nodwch):

Agenda eitem

Pwnc:

Natur y Buddiant:

*(Gweler y nodyn isod)**

Llofnod

Dyddiad

Noder: Rhowch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

# PWYLLGOR LLYWIO'R GYMRAEG

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Llywio'r Gymraeg a gynhaliwyd yn Cabinet Room, County Hall, Ruthin, Dydd Llun, 2 Gorffennaf 2018 am 3.30 pm.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Ann Davies, Arwel Roberts, Tony Thomas (Is-Gadeirydd), Graham Timms (Cadeirydd) a/ac Emrys Wynne

## HEFYD YN BRESENNOL

Arweinydd Tîm –Rheoli Cyfathrebu ac Ymgyrchoedd (GW)
Swyddog Iaith Gymraeg (MC)
Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd (SP)
Gweinyddwr Pwyllgor (RhTJ)

## 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cynghorwyr Ellie Chard, Huw Hilditch-Roberts, a Paul Penlington.

## 2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Y Cynghorydd Emrys Wynne – Cadeirydd bwrdd Menter Iaith Sir Dinbych.

Y Cynghorydd Arwel Roberts – Aelod o fwrdd Menter Iaith Sir Dinbych.

## 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Nid oedd unrhyw faterion brys.

## 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion Pwyllgor Llywio'r Gymraeg a gynhaliwyd ar 2 Mai 2018.

**Materion yn Codi:-**

- Codwyd materion arwyddion dwyieithog ac ailenwi strydoedd a thai. Gofynnodd yr Aelodau am i'r swyddog perthnasol ddod i gyfarfod pellach o'r pwyllgor i drafod y mater.

***PENDERFYNWYD -*** *derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Mai 2018 fel cofnod cywir*

## 5 ADRODDIAD MONITRO IAITH GYMRAEG BLYNYDDOL

Cyflwynodd yr Arweinydd Tîm – Rheoli Cyfathrebu ac Ymgyrchoedd adroddiad monitro'r Gymraeg a oedd yn amlygu cynnydd y Cyngor gyda'r safonau iaith yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf.

Yn dilyn cyflwyniad a throsolwg byr yr Arweinydd Tîm, awgrymodd y cadeirydd y dylai'r pwyllgor fynd drwy adroddiad monitro'r iaith Gymraeg a chodi unrhyw bryderon neu gwestiynau.

Pencampwyr Iaith

- Holwyd a oedd yna restr o Bencampwyr Iaith y gellid ei rhannu i'r aelodau. Dywedodd yr Arweinydd Tîm wrth yr aelodau fod yna restr ar yr hysbysfyrddau ledled swyddfeydd y cyngor ac y byddai'r rhestr yn cael ei rhannu. Dywedodd yr Arweinydd Tîm wrth yr aelodau mai dyletswyddau mewnol ynghylch y Cyngor oedd gan y Pencampwyr Iaith ac nad ydyn nhw'n ymdrin â materion allanol. Dywedodd yr Arweinydd Tîm wrth yr aelodau y byddai pencampwr iaith yn dod i gyfarfod pellach o'r Pwyllgor i drafod y dyletswyddau sy'n cael eu cyflawni.

Gweithio mewn Partneriaeth

- Wrth drafod y Gwaith mewn Partneriaeth gan y Cyngor, datganodd y Cynghorwyr Emrys Wynne ac Arwel Roberts fuddiant gan eu bod yn aelodau o fwrdd Menter Iaith Sir Ddinbych

Cynllunio'r Gweithlu:

- Dywedodd yr Arweinydd Tîm wrth yr aelodau fod y Cyngor yn bwriadu cynnal archwiliad i ganfod faint o siaradwyr Cymraeg sydd yn y Cyngor. Holodd yr aelodau yr Arweinydd Tîm ynghylch nifer y siaradwyr Cymraeg yn y Cyngor ac a oedd unrhyw adran yn peri pryder oherwydd prinder siaradwyr Cymraeg. Wrth ymateb dywedodd yr Arweinydd Tîm wrth yr aelodau ei bod yn anodd amcangyfrif nifer y siaradwyr Cymraeg oherwydd bod y data sydd wedi'i gasglu yn anghyson. Amlinellwyd cynlluniau'r dyfodol ynghylch sicrhau fod rheolwyr yn casglu data mwy cywir am allu ieithyddol eu staff. Dywedodd yr Arweinydd Tîm wrth yr aelodau y byddai holiadur hefyd yn cael ei gylchredeg yn y dyfodol ond roedd yn cydnabod nad oedd staff yn cyflwyno ymatebion cywir bob amser ynglŷn â'u galluoedd ieithyddol yn y Gymraeg, am amrywiaeth o resymau.

Dangosyddion y Gymraeg.

- Trafodwyd perthnasedd a phwysigrwydd y dangosyddion a ddefnyddiwyd i fonitro cynnydd.

- Holodd yr aelodau'r Arweinydd Tîm am y cwynion a dderbyniwyd oddi wrth y cyhoedd yn gyffredinol. Atebodd yr Arweinydd Tîm y derbyniwyd pedair cwyn

yn ystod y flwyddyn ariannol diwethaf a bod pob un wedi'i thrin o fewn yr cyfnodau a ganiateir.

- Holwyd a fyddai cwynion yn debyg o gynyddu wrth i'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol gynyddu. Dywedodd yr Arweinydd Tîm fod yr holl wybodaeth a oedd yn cael ei roi ar Facebook yn ddwyieithog ond y byddai'r ail drydaru a'r ymatebion yn cael eu hateb yn iaith y post.

Canmolodd y Cynghorydd Arwel Roberts yr adroddiad manwl a chynigiodd y dylai'r pwyllgor gytuno ar gynnwys yr adroddiad. Eiliodd y Cynghorydd Ann Davies y cynnig.

Pleidleisiodd pob un o'r aelodau i gytuno â chynnwys yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD –** ***fod y Pwyllgor yn cymeradwyo cynnwys Adroddiad Monitro'r Iaith Gymraeg.***

**6 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL**

Dywedodd y cadeirydd yr hoffai i gyfarfodydd y pwyllgor ganolbwyntio ar adrannau penodol o Safonau'r Gymraeg, yn hytrach na cheisio trafod yr holl Safonau'r un pryd.

Awgrymodd yr Arweinydd Tîm – Rheoli Cyfathrebu ac Ymgyrchoedd hefyd y dylid ychwanegu at y rhaglen waith ddiweddariad gan y Gwasanaethau Ieuenctid ar Gydweithio rhwng Gwasanaeth Ieuenctid Sir Ddinbych a'r Urdd.

Trafodwyd swyddogaeth y Pencampwyr Iaith a chytunwyd y dylen nhw ddod i'r cyfarfod nesaf.

Cytunodd y Pwyllgor gynnwys eitem ar y flaen raglen waith ynglŷn â pholisi'r Gymraeg ac enwi strydoedd.

***PENDERFYNWYD – Yn amodol ar yr uchod, gymeradwyo'r flaen raglen waith.***

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**Adroddiad i'r:** Pwyllgor Llywio'r Iaith Gymraeg

**Dyddiad y cyfarfod:** 9 Hydref 2018

**Aelod / Swyddog Arweiniol:** Huw Hilditch Roberts / Gareth Watson

**Awdur yr Adroddiad:** Gareth Watson, Arweinydd Tîm - Rheoli Cyfathrebu ac Ymgyrchoedd

**Teitl:** Hyrwyddwyr yr Iaith Gymraeg

**1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**
Hyrwyddwyr yr Iaith Gymraeg y Cyngor

**2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

Amlinellu dull gweithredu Hyrwyddwyr yr Iaith Gymraeg a chynllun gwaith cysylltiedig.

**3. Beth yw'r Argymhellion?**
Cytuno ar y dull gweithredu a'r cynllun gwaith ar gyfer 2018/2019.

**4. Manylion yr Adroddiad**

Ar hyn o bryd mae deg Hyrwyddwr yr Iaith Gymraeg yn cynrychioli prif wasanaethau'r Cyngor.

Crëwyd y rolau hyn i ymateb i Safonau'r Gymraeg a'r Safonau uniongyrchol sy'n berthnasol i Gymraeg yn y Gweithle.

Mae'r Hyrwyddwyr yn cyfarfod bob chwarter ac maent wedi gwneud ymrwymiad cadarn i hyrwyddo'r Gymraeg yn y gwasanaeth a chynorthwyo'r ymdrechion corfforaethol.

**Rolau Hyrwyddwyr yr Iaith Gymraeg yw:**

- Hyrwyddo, cefnogi ac annog rhagor o ddefnydd o'r Gymraeg yn y gweithle
- Mentora staff sy'n dysgu Cymraeg
- Cefnogi ymgyrchoedd a mentrau mewnol i sicrhau bod y Gymraeg yn fwy gweladwy
- Creu diwylliant dwyieithog o fewn y sefydliad
- Annog a chefnogi rhagor o ddefnydd o'r Gymraeg fel iaith fusnes fewnol
- Cefnogi a hwyluso gwasanaethau dwyieithog yn eu gweithleoedd eu hunain

- Cynorthwyo i godi ymwybyddiaeth o’r Gymraeg a’i phwysigrwydd wrth gynllunio a darparu gwasanaethau
- Gweithio’n agos gyda’r Swyddog Iaith Gymraeg
- Bod yn arweinydd naturiol sy’n arwain wrth esiampl ac edrych ar wahanol ffyrdd o godi proffil y Gymraeg yn y gweithle

**Mae rhai mentrau a ddilynwyd eisoes wedi’u rhestru isod:**

- Cyflwyno cortynnau gwddf y Gymraeg i siaradwyr Cymraeg a dysgwyr
- Dechrau sgyrsiau yn Gymraeg gyda chydweithwyr
- Darparu cefnogaeth i ddysgwyr yn ystod eu cyrsiau drwy fentora/ sgyrsiau anffurfiol
- Archwilio arwyddion/ posteri yn eu hadeiladau eu hunain
- Cynorthwyo staff i fod â llofnod e-bost dwyieithog a negeseuon cyfarch dwyieithog ar eu ffonau
- Cyfrannu eitemau ar gyfer y tudalennau Cymraeg ar Linc

**Y rhaglen arfaethedig ar gyfer 2019:**

- Archwilio cydymffurfio â’r polisi ateb ffonau
- Archwilio adeiladau i nodi cyfleoedd pellach ar gyfer presenoldeb gweledol trwy gyfrwng y Gymraeg
- Cynorthwyo i gefnogi Eisteddfod yr Urdd drwy weithgareddau rheolaidd a negeseuon i gydweithwyr
- Cymryd arweinyddiaeth ar fentrau sy’n cefnogi diwylliant dwyieithog y sefydliad, gan gynnwys Eisteddfod y Cyngor
- Arwain ar weithgareddau cymdeithasol amser cinio, e.e. sesiwn paned a sgwrs, cynorthwyo’r Swyddog Iaith Gymraeg gyda’r rhain
- Trefnu cyfweliadau/ astudiaethau achos ar gyfer Linc gyda dysgwyr Cymraeg

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae’r penderfyniad yn cyfrannu at ddatblygiad y Gymraeg a’r diwylliant Cymreig, sy’n sylfaen i Gynllun Corfforaethol y Cyngor. Mae’n cyfrannu’n fawr hefyd at Strategaeth y Gymraeg sy’n amlygu’r bwriad i ddenu digwyddiadau mawr sy’n hyrwyddo’r Gymraeg yn y sir.

**6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

*Nid oes cyllideb ar gyfer y Gymraeg. Disgwylir i unrhyw gostau gael eu cynnwys mewn cyllidebau presennol.*

**7. Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o’r Effaith ar Les?**

Er nad oes angen Asesiad o’r Effaith ar Les ffurfiol ar gyfer yr adroddiad hwn, mae'n werth nodi rhai o'r manteision allweddol mewn perthynas â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Safonau’r Gymraeg.

Un o brif elfennau Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 yw: "Cymru â diwylliant bywiog ac iaith Gymraeg ffyniannus: Cymdeithas sy'n hybu ac yn diogelu diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg, ac sy'n annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, chwaraeon a hamdden.”

Mae gan y Cyngor rôl hefyd, trwy ei Safonau’r Gymraeg, i hyrwyddo cyfleoedd i gymunedau lleol gymryd rhan mewn gweithgareddau Cymraeg.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?**

Ymgynghorwyd â’r Uwch Dîm Arweinyddiaeth.

**9. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Y prif risg yw enw da'r awdurdod, gan ein bod eisoes wedi ymrwymo yn ein Strategaeth Iaith Gymraeg a thrwy Safonau’r Gymraeg i gynyddu’r defnydd o Gymraeg yn y Gweithle ac mewn cymunedau.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**Adroddiad i'r:** **Pwyllgor Llywio'r Iaith Gymraeg**

**Dyddiad y cyfarfod:** **9 Hydref 2018**

**Aelod / Swyddog Arweiniol:** **Aelod Arweiniol Huw Hilditch Roberts / Bobby Feeley**
**Swyddog Arweiniol Lles Cymunedol : Roger Ellerton**

**Awdur yr Adroddiad:** **Roger Ellerton, Swyddog Arweiniol Lles Cymunedol, FAH**

**Teitl:** **Cydweithio rhwng Gwasanaeth Ieuenctid Sir Ddinbych a'r Urdd**

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn egluro cyd-destun y bartneriaeth Gymraeg rhwng y Gwasanaeth Ieuenctid, Hamdden Strategol a'r Urdd.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Gofynnodd y Pwyllgor am adroddiad er mwyn briffio'r Pwyllgor am y gwaith parhaus rhwng y Gwasanaeth Ieuenctid a'r Urdd i wella darpariaeth Gymraeg ar gyfer pobl ifanc yn Sir Ddinbych.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor yn cydnabod y gwaith rhwng y Gwasanaeth Ieuenctid, Hamdden Strategol a'r Urdd sy'n gwella darpariaeth Gymraeg ar gyfer pobl ifanc yn Sir Ddinbych.

## 4. Manylion yr Adroddiad

### 4.1 Cefndir

Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid a'r Urdd wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth i wella'r ddarpariaeth a gwella cyfleoedd trwy gyfrwng y Gymraeg i bobl ifanc ers 2010. Mae hon wedi bod yn bartneriaeth lwyddiannus ac yn 2013 enillodd wobr Rhagoriaeth Llywodraeth Cymru am 'gefnogi a hyrwyddo diwylliant yng Nghymru'.

Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd rhwng y Swyddog Arweiniol ar gyfer Lles Cymunedol a Chyfarwyddwr Rhanbarthol yr Urdd, i gynllunio, monitro a datblygu cydweithio rhwng y Gwasanaeth Ieuenctid a'r Urdd.

Crëwyd swydd gweithiwr Ieuenctid a ariennir ar y cyd dros chwe mlynedd yn ôl, sydd wedi bod yn gatalydd i gynhyrchu gweithgarwch ar y cyd rhwng y Gwasanaeth Ieuenctid, Hamdden Strategol a'r Urdd. Mae Gweithiwr Ieuenctid yr Iaith Gymraeg wedi'i hyfforddi mewn Gwaith Ieuenctid ac wedi ei gofrestru gyda'r Cyngor Addysg a Gweithlu (gofyniad cyfreithiol). Mae hyn yn arwyddocaol gan ei fod wedi bod yn heriol recriwtio gweithwyr ieuenctid cymwys trwy gyfrwng y Gymraeg.

Er mwyn annog mwy o geisiadau Cymraeg ar gyfer swyddi yn y gwasanaeth ieuenctid, mae'r gwasanaeth wedi recriwtio gweithwyr ieuenctid dan hyfforddiant ar y raddfa broffesiynol, ac wedi llwyddo i recriwtio 2 Weithiwr Ieuenctid Cymunedol sy'n siarad Cymraeg. Yn ogystal, yn ddiweddar cafodd y gweithiwr ar y cyd a gyflogwyd gan yr Urdd ei benodi'n llwyddiannus i swydd y Gweithiwr Ieuenctid Ysgol.

Mae yna hefyd ymgyrch recriwtio gwirfoddolwyr parhaus ac mae croeso arbennig i wirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg. Byddant yn cael eu hyfforddi mewn gwaith ieuenctid i safonau galwedigaethol sy'n briodol i'w rôl wirfoddoli.

**4.2 Rhaglen Waith ar y Cyd**

Cytunir ar gytundeb lefel gwasanaeth blynyddol gan y Gwasanaeth Ieuenctid a'r Urdd sy'n tynnu sylw at y gwaith y bydd yr Urdd yn ei wneud mewn partneriaeth â'r Gwasanaeth Ieuenctid.

Mae'r rhaglen waith yn cynnwys:

- Darparu clybiau tu allan i'r ysgol i gefnogi defnydd cymdeithasol o'r Iaith Gymraeg, gan gynorthwyo pobl ifanc i ddatblygu gwydnwch fel canlyniad allweddol
- Darparu rhaglen waith ieuenctid Gymraeg a fydd yn cefnogi pobl ifanc sydd mewn perygl o fod yn NEET i barhau i ymgysylltu
- Cefnogi canlyniadau gwaith ieuenctid trwy achrediad mewn partneriaeth â'r Gwasanaeth Ieuenctid, ysgolion (Ysgol Glan Clwyd, Ysgol Brynhyfryd, Ysgol Dinas Bran) a'r coleg (bydd pobl ifanc yn cael achrediad priodol yn dibynnu ar eu hanghenion)
- Datblygu sgiliau meddal a chyfleoedd gwirfoddoli i wella cyflogadwyedd / parodrwydd pobl ifanc ar gyfer hyfforddiant / coleg
- Bydd gweithiwr ieuenctid Cymraeg yn parhau i fod yn rhan o'r ymarferwyr Ymgysylltu / Paneli Ymgysylltu â'r Ifanc a'r broses atgyfeirio Gwasanaeth Ieuenctid sy'n dyrannu achosion ar gyfer ymyrraeth gwaith ieuenctid.

- Gweithio gydag atgyfeiriadau iaith Gymraeg yn Ysgol Glan Clwyd.

Cytunwyd ar yr allbynnau canlynol yn flynyddol. Adroddir ar berfformiad yn ffurfiol i Lywodraeth Cymru bob 6 mis.

- 1500 o Bobl Ifanc yn ymgysylltu trwy gyfrwng y Gymraeg
- 345 o achrediadau i'w cwblhau (23%)
- 2000 o gysylltiadau â phobl ifanc trwy weithgarwch cyfrwng Cymraeg.
- 4 atgyfeiriad gan gyfarfodydd ymarferwyr
- 90% yn cyflawni canlyniadau dilyniant cofnodedig
- Mae 15 o bobl ifanc sydd mewn risg yn ymgysylltu i gael cefnogaeth
- Mynediad Agored Cymunedol - 4 clwb i'w cynnal yn wythnosol.
- 6 rhaglen Gymraeg ar draws y sir yn yr Ysgolion Uwchradd a’r oedran pontio, gan gynnwys clybiau a sesiynau amser cinio.
- Ymgysylltu â 35 o bobl ifanc â chyfleoedd gwirfoddoli a sicrhau cyfranogiad yn Fforymau Ieuenctid yr Urdd

**4.3 Gweithio mewn partneriaeth**

Mae'r Bartneriaeth rhwng y Gwasanaeth Ieuenctid a'r Urdd yn effeithiol ac mae yna lawer o gryfderau sydd wedi cyfrannu tuag at alluogi pobl ifanc i gymryd rhan mewn gweithgarwch o ansawdd uchel ac mae hynny wedi cefnogi mwy o ddefnydd o'r Gymraeg mewn lleoliadau cymdeithasol.

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth wedi parhau i lunio'r prosiect ac ennill arian allanol gan Lywodraeth Cymru drwy'r Grant Cymorth Strategaeth Gwaith Ieuenctid. Mae'r Urdd hefyd wedi sicrhau cyllid o nawdd Gwynt y Môr i sicrhau mwy o gyfleoedd i bobl ifanc yn ardal y Rhyl / Prestatyn.

Mae arweinyddiaeth dda rhwng yr Urdd a'r Gwasanaeth Ieuenctid ar lefelau strategol a gweithredol / darparu. Roedd dull effeithiol o resymoli gweithgaredd prosiect a arweiniodd at gyfarwyddo pobl ifanc tuag at ystod o raglenni yn y clwb er mwyn gwella cyfranogiad a defnydd da o adnoddau.

Mae ystod o adnoddau sydd wedi'u rhannu rhwng y Gwasanaeth Ieuenctid a'r Urdd. Mae hyn yn cynnwys defnyddio canolfannau Ieuenctid yr ALl, bws mini, arbenigedd yr Urdd, achrediadau a gweithdai gwrth-fwlio ar y cyd yn ysgolion y Sir.

**4.4 Gwerthuso**

Cynhelir hunanasesiad blynyddol rhwng y Gwasanaeth Ieuenctid a'r Urdd. Mae'r asesiadau ar y cyd wedi bod yn gadarnhaol ac yn dangos gwaith partneriaeth da i gefnogi darpariaeth iaith Gymraeg.

Fel rhan o'r broses, mae'r ffurflenni 'Dangos Llwyddiant' a'r ffurflenni 'Dweud dy Ddweud' i werthuso nifer o wahanol weithgareddau. Trwy werthuso'r gwaith, gallwn ddod i'r casgliad canlynol:

Mae'n amlwg bod ein gwaith yn cael effaith gadarnhaol ar y bobl ifanc. Mae'r bobl ifanc wedi ennyn hyder ynddynt eu hunain, yn eu sgiliau iaith ac yn eu dymuniad i ddefnyddio'r Gymraeg yn y dyfodol. e.e. Mae Sgiliau Iaith wedi cynyddu o 10% cyn y gweithgaredd, i 65% ar ôl y gweithgaredd.

**4.5 Hamdden Strategol**

Mae'r cydweithio gyda'r Urdd hefyd wedi'i ymestyn i feysydd gwaith eraill sy'n dod o dan reolaeth y Swyddog Arweiniol ar gyfer Lles Cymunedol. Mae hyn yn ganlyniad i'r Gwasanaeth Ieuenctid a Hamdden Strategol yn cael eu rheoli gan y swyddog arweiniol ac archwilio synergeddau rhwng y ddau faes gwasanaeth.

Mae staff o fewn y tîm Pobl Ifanc Egnïol hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â'r Urdd i ddarparu gweithgareddau chwaraeon trwy waith allgyrsiol yn yr ysgol a chyfleoedd cymunedol. Mae staff Pobl Ifanc Egniol hefyd yn cefnogi'r bobl ifanc mewn cystadlaethau trwy fynd â nhw i Eisteddfodau y tu allan i oriau ysgol.

**Mae Darpariaeth Gymraeg yn parhau yn y Tîm Pobl Ifanc Egnïol gyda staff sy'n gallu cynnig y gweithgareddau / prosiectau canlynol:**

- Cynigir hyfforddiant beicio yn y ddwy iaith i holl ddisgyblion Blwyddyn 6
- Rhoddir gwobr 'Playmakers' (Blwyddyn 6) yn Gymraeg i Ysgolion Cynradd ar gais
- Mae achrediadau Arweinwyr Chwaraeon yn cael eu cyflwyno yn Gymraeg mewn partneriaeth â'r Urdd.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae'r gwaith sy'n digwydd rhwng yr Urdd, Gwasanaethau Ieuenctid a Hamdden Strategol, yn cyfrannu tuag at Safonau'r Gymraeg a'r Flaenoriaeth Gorfforaethol - Pobl Ifanc: Man lle bydd pobl iau am fyw a gweithio ynddo, a bod ganddynt y sgiliau i wneud hynny.
Mae'r rhaglen waith yn cefnogi'r canlynol yn benodol:

- Helpu pobl ifanc i ddatblygu 'sgiliau byw' ymarferol ac ymddygiad sy'n cyfrannu at iechyd a lles da.

- Rhoi cyfle i bobl ifanc ddatblygu sgiliau bywyd a gwaith drwy gyfleoedd gwirfoddoli a phrofiad gwaith ystyrlon.

Mae'r gwasanaeth yn rhoi blaenoriaeth i hyrwyddo gwirfoddoli a phrofiad gwaith. Cynhelir 6 digwyddiad recriwtio gwirfoddolwyr bob blwyddyn, i recriwtio gwirfoddolwyr i'r gwasanaeth.

Mae cynllun Prentisiaeth yr Urdd - Sir Ddinbych wedi penodi'r prentis Ieuenctid a Chymuned cyntaf yng Nghymru yn ddiweddar. Mae'r cynllun hwn yn cefnogi pobl ifanc i gael profiad o waith a'r cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg.

**6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**
***Nodiadau adran: Dylid ystyried y meysydd canlynol fel isafswm wrth ddrafftio'r adroddiad:***

Amherthnasol

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?**

Nid oes angen asesiad o effaith gan fod yr adroddiad yn amlygu'r ddarpariaeth gyfredol ac nid oes unrhyw newid wedi'i gynnig.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?**

Mae'r Urdd wedi bod yn rhan o gynhyrchu'r adroddiad.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Ddim yn ofynnol oherwydd cyd-destun briffio'r adroddiad.

**10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Yr unig risg yw argaeledd cyllid i gefnogi'r swydd ar y cyd rhwng y Gwasanaeth Ieuenctid a'r Urdd. Pe bai Llywodraeth Cymru yn dileu'r grant, byddai'r Gwasanaeth Ieuenctid a'r Urdd yn ceisio sicrhau cyllid allanol i barhau â'r bartneriaeth.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Ddim yn berthnasol - Dim angen penderfyniad.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Eitem Agenda 8

RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL PWYLLGOR LLYWIO'R IAITH GYMRAEG

| Cyfarfod | Eitem (disgrifiad / teitl) | | Pwrpas yr Adroddiad | Aelod Arweiniol a Swyddog Cyswllt |
|---|---|---|---|---|
| **Hydref 2018** | | | | |
| | 1 | Pencampwyr Iaith | I ddiweddaru'r Pwyllgor Llywio am waith y Pencampwyr Iaith o fewn yr awdurdod. | Cllr Huw Hilditch-Roberts<br><br>Gareth Watson |
| | 2 | Gwasanaethau Ieuenctid a'r Urdd | I esbonio'r gwaith sy'n mynd ymlaen I weithio gyda phobl ifanc er mwyn hyrwyddo'r Gymraeg yn y sir | Roger Ellerton |
| | 3 | Canolfan Iaith Ysgol Glan Clwyd | Cyflwyniad ar swyddogaeth y Ganolfan Iaith newydd yn Ysgol Glan Clwyd | Gareth Watson |
| **Mawrth 2019** | | | | |
| | | | | |
| **Gorffennaf 2019** | | | | |
| | | | | |
| **Tachwedd 2019** | | | | |
| | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfarfodydd y dyfodol** | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Arwyddion dwyieithog ac enwi strydoedd | Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y broses o enwi strydoedd | TBC |

***Nodyn i Swyddogion - Dyddiadau Cau Adroddiadau***

| *Cyfarfod* | ***Dyddiau Cau*** | *Cyfarfod* | ***Dyddiau Cau*** | *Cyfarfod* | ***Dyddiau Cau*** |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |